


Beth Fydd y Prosiect Hwn yn ei Gyflawni

Cyfleusterau i Gerddwyr

-  Rhan goll o'r droedffordd ar Rodfa Purcell ger y Clwb Llynges.
-  Ehangu'r llwybr defnydd a rennir ar Ffordd Solar ac o amgylch y lle chwarae.
-  Ailwynebu rhannau o'r droedffordd sydd wedi'u difrodi, gan gynnwys Heol Victoria.

Pwyntiau Croesi Newydd neu Well

-  8 croesfan twcan newydd ar Ffordd y Dywysoges Margaret a Heol Victoria.
-  5 croesfan gyfochrog newydd ar Ffordd Solar a chylchfan Ffordd y Dywysoges Margaret/Heol Dalton/Rhodfa'r Gorllewin.
-  Mwy na 50 o groesfannau newydd heb eu rheoli neu wedi'u gwella, gan gynnwys cyrbau isel a phalmentydd cyffyrddol.
-  Adnewyddu croesfannau gyda goleuadau ar gyffordd Heol Victoria/Heol yr Ysbyty/Heol Pontnewydd.

Cyfleusterau Beicio

-  Lonydd beicio newydd ar hyd Ffordd y Dywysoges Margaret a llwybr defnydd a rennir lle nid oes llawer o le er mwyn lleihau gwrthdaro ar y promenâd.
-  Lleoedd parcio beiciau newydd wedi'u gosod mewn lleoliadau priodol.
-  Beicio ar y ffordd ar Rodfa Handel, Rhodfa Purcell, Rhodfa Scarlet a Heol Saint Paul, a gefnogir gan y mesurau tawelu traffig lleiaf posib.

Mannau Cyhoeddus ac Ardaloedd Gwyrddu

-  Gwella manau cyhoeddus o ansawdd uchel mewn tri lleoliad allweddol: O gwmpas caffi Memo Beach, Ger y parc sglefrio, Y ddyfodfa at Ysgol Gynradd Tywyn
-  Plannu planhigion a gwyrddu ardaloedd ym mhob ardal.

Cyfleusterau Bysus

-  1 arhosfan bws newydd gyferbyn â Remo's i gefnogi llwybrau bysus diwygiedig ar hyd glan y môr.
-  Gosod llochesi bysus newydd neu ddisodli llochesi bysus lle bo angen ym mhob ardal.


Defnyddwyr Ffyrdd

-  Cilfachau llwytho/gwasanaethu yn Francos a chaffi Memo.
-  Darpariaeth parcio ychwanegol gan gynnwys: Dwy gilfach anabl newydd a 19 cilfach safonol ger caffi Memo, Pedair cilfach anabl newydd a 18 cilfach safonol gyferbyn â The Four Winds, Ar y cyfan, bydd oddeutu 3 lle parcio ychwanegol ar lan y môr.
-  I atal parcio'n anghyfreithlon ar balmentydd, rydym yn cynnig rhoi llinellau melyn a defnyddio bolardiau a phlanhigion.
-  Ailwynebu ffordd gerbyddau Ffordd y Dywysoges Margaret.

Am ragor o fanylion, gweler y cynlluniau ar daflenni 3 – 10

A chyfeiriwch at y rhestr o dermau am luniau a disgrifiadau o'r gwelliannau ar gyfer cerdded a beicio.

Amserlen y Prosiect



Camau Nesaf y Prosiect

- Adolygu Adborth**

byddwn yn dadansoddi'r holl ymatebion a'r sylwadau ynghylch yr arolwg o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb.
- Cwblhau'r Dyluniad**

bydd adborth yn llywio dyluniad terfynol y cynllun, ochr yn ochr â chwblhau Archwiliad Diogelwch Ffyrdd 2.
- Paratoi ar gyfer Cyflawni**

bydd gorchmynion traffig, caffael a gwaith cynllunio adeiladu'n dilyn.
- Adeiladu**

disgwylir i'r gwaith fynd rhagddo o ganol 2026 i 2028 a darperir diweddariadau rheolaidd cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.
- Mae datblygiad y dyluniad wedi cynnwys cydweithrediad agos ar draws sawl adran o'r cyngor, cynghorwyr lleol, busnesau a sefydliadau cymunedol, gan gynnwys Ysgol Gynradd Tywyn. Rydym hefyd wedi cynnwys adborth a gafwyd eisoes fel rhan o ymgysylltiad blaenorol â'r cyhoedd